Adroddiad ar adolygiad ymarfer: **Ilofruddiaeth Steven Hoskin**

Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â gweithredu ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith aml-asiantaethol. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a gofyn cwestiynau ynghylch dulliau atal mewn sefyllfaoedd lle mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn digwydd. Maent wedi'u crynhoi i helpu gyda'r broses hon, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau ar yr adolygiadau.

Cyd-destun a chefndir yr adolygiad

Ar 31 Awst 2007, penderfynodd Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Cernyw bod angen sefydlu adolygiad achos difrifol yn sgil llofruddiaeth Steven Hoskin.

Cafodd llofruddiaeth Steven Hoskin sylw eang yn y cyfryngau ym mis Awst 2007 ar ôl i'r ddau brif droseddwr, Darren Stewart (29 oed) a Sarah Bullock (16 oed) gael eu dyfarnu'n euog o lofruddiaeth, a Martin Polland (21 oed) ei ddyfarnu'n euog o ddynladdiad.

Mae'r achos wedi'i ddisgrifio fel 'trosedd casineb anabledd' ac mae cysylltiadau wedi'u gwneud â marwolaethau pobl eraill ag anableddau dysgu gydag anghenion cymorth hysbys.

Amgylchiadau'r unigolyn a'r heriau a oedd yn ei wynebu

Roedd Steven Hoskin yn 39 oed. Fe'i ganed i fenyw sengl a oedd ag anabledd dysgu ei hun a daeth anabledd dysgu Steven yn amlwg pan oedd yn blentyn ifanc. Yn 12 oed gadawodd ei ysgol gynradd leol a dechrau fel disgybl preswyl wythnosol yn ysgol arbennig Pencalenick, gan fynd adref at ei fam (at Stad Lanhydrock ar gyrion Bodmin) ar benwythnosau.

Nid oedd Steven yn gallu darllen. Ar ôl gadael yr ysgol yn 16 oedd, ni lwyddodd Steven i ddod o hyd i waith ac fe'i derbyniwyd fel claf mewnol yn Westheath House, uned 'asesu a thriniaeth' y GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl. Er iddo aros yno am 14 mis, nid yw diben therapiwtig ei arhosiad yn hysbys. Yn ystod ei gyfnod yn Westheath House, cymerodd Steven ran mewn gweithgareddau hyfforddi ieuenctid yn ardal Bodmin. Roedd hwn yn gyfnod anhapus i Steven gan iddo gael ei 'fictimeiddio gan hyfforddeion eraill'.

Beth ddigwyddodd?

Rhoddwyd Steven mewn fflat un ystafell gan y gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion ym mis Ebrill 2005. Roedd yn derbyn dwy awr o gymorth bob wythnos ond dewisodd roi'r gorau i'r gwasanaeth ym mis Awst ac erbyn mis Medi roedd y cyngor wedi cau ei achos.

Mae hanes llofruddiaeth Steven yn erchyll. Ar 6 Gorffennaf 2006, daethpwyd o hyd i'w gorff ar waelod traphont rheilffordd St Austell. Yn ogystal â'r anafiadau catastroffig amlwg sy'n gysylltiedig â disgyn 30 metr, cadarnhaodd archwiliad post-mortem bod Steven wedi cymryd tabledi parasetamol, wedi bod yn yfed alcohol ac wedi cael anafiadau diweddar yn sgil llosgiadau sigarét. Hefyd, roedd ganddo gleisiau ar ei wddf a oedd wedi'u hachosi ar ôl cael ei lusgo o gwmpas ei gartref gyda thennyn ei gi ei hun ac roedd olion traed ar gefn ei ddwylo.

Pam y digwyddodd?

Ni ymchwiliwyd i 'ddewis' Steven i roi'r gorau i'w gyswllt â gofal cymdeithasol i oedolion, nac unrhyw asiantaethau allweddol eraill a oedd yn cyfrannu at ei ofal, er y gallai dewisiadau o'r fath wneud person yn fwy agored i niwed, yn gallu cael eu gwneud ar sail gwybodaeth annigonol neu amhriodol; neu yn deillio o orfodaeth amhriodol gan drydydd partïon.

Roedd Steven yn defnyddio'r gwasanaethau brys yn helaeth ac yn gyson, gan ymddangos yn aml mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ond ni sbardunodd hyn unrhyw amheuon.

Argymhellion yr adroddiad

Crybwyllodd Cadeirydd Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Cernyw wrth yr Adran lechyd ei bod yn amlwg bod angen meini prawf risg a 'throthwyon' clir mewn perthynas â diogelu oedolion agored i niwed, sy'n cyfateb i'r rhai ar gyfer amddiffyn plant. Os pennir 'trothwyon' clir, er enghraifft fel oedolion agored i niwed yn mynychu gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys/Uned Mân-anafiadau fwy na theirgwaith o fewn cyfnod o dri mis; neu unrhyw oedolion agored i niwed sy'n mynychu gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys/Uned Mân-anafiadau ar ôl i rywun ymosod arnynt/yn sgil cymryd gormod o gyffuriau a/neu alcohol, yna dylai'r oedolion agored i niwed dan sylw gael eu cyfeirio at y gwasanaethau amddiffyn oedolion a'r Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion bob tro.

Crybwyllodd Cadeirydd Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Cernyw wrth y Swyddfa Gartref bod angen peidio â chyfyngu gwasanaethau trais domestig yr heddlu i 27 o oedolion Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Cernyw yn unig. Nid yw'r sefyllfa sydd ohoni yn ystyried menywod a dynion ifanc dan 18 oed sy'n byw gyda phartneriaid treisgar ond nad ydynt yn cael eu hamddiffyn gan weithdrefnau amddiffyn plant o reidrwydd.

Crybwyllodd Cadeirydd Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Cernyw wrth yr Adran lechyd y dylai unrhyw benderfyniadau sy'n trawsnewid bywydau (neu 'ddewisiadau') gan oedolyn agored i niwed hysbys – fel rhoi'r gorau i dderbyn gwasanaeth cymorth – arwain at asesiadau o allu'r unigolyn i wneud penderfyniadau.

Dylai Heddlu Dyfnaint a Chernyw a'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol fabwysiadau term yr Adran lechyd – anabledd dysgu – i gyfyngu ar gwmpas unrhyw amwysedd posibl am anghenion cymorth hirdymor person a'i statws fel oedolyn agored i niwed.

Nid y rhain yw'r gyfres lawn o argymhellion.

Dyfyniad www.cornwall.gov.uk/media/3633936/Steven-Hoskin-Serious-Case-Review-Exec-Summary.pdf (Saesneg yn unig)